**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: EJ/AD

6 Rhagfyr 2018

Annwyl Mick

**Diwygio’r Cynulliad: Ariannu’r Comisiwn Etholiadol ac atebolrwydd y sefydliad**

Hoffwn dynnu eich sylw, fel Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, at fy llythyr at holl Aelodau'r Cynulliad ar 12 Tachwedd, yn benodol y cynigion y mae’r Comisiwn yn eu hystyried, i wneud y Comisiwn Etholiadol yn atebol i'r Cynulliad, ac iddo gael ei ariannu gan Gomisiwn y Cynulliad, mewn perthynas ag etholiadau datganoledig yng Nghymru (h.y. etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau'r Cynulliad).

Mae’r Comisiwn yn edrych yn fanwl ar y cyfle i Fil Senedd ac Etholiadau (Cymru), y disgwylir iddo gael ei gyflwyno yn y flwyddyn newydd, gyflwyno'r cynigion hyn. Os hoffech gwrdd â mi i drafod y cynnig a'r dull gweithredu o ran deddfu ar y mater hwn, byddwn yn fwy na bodlon gwneud hynny.

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

At: Holl Aelodau'r Cynulliad

12 Tachwedd 2018

Annwyl Aelod

**Y wybodaeth ddiweddaraf am ddiwygio'r Cynulliad**

Ar 10 Hydref, pleidleisiodd Aelodau'r Cynulliad i ganiatáu i Gomisiwn y Cynulliad gyflwyno Bil, yn gynnar yn 2019, i newid enw'r Cynulliad, gostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad i 16, diwygio'r gyfraith ar anghymhwyso pobl rhag bod yn Aelodau a gwneud newidiadau eraill i drefniadau etholiadol a threfniadau mewnol y Cynulliad.

Rwyf yn ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ddau fater a drafodwyd yng nghyfarfod y Comisiwn ar 5 Tachwedd 2018:

- Cynigion ar gyfer ariannu'r Comisiwn Etholiadol ac atebolrwydd y sefydliad; a
- Newidiadau i enw'r Cynulliad a'r ffordd y disgrifir Aelodau.

**Cynigion ar gyfer ariannu'r Comisiwn Etholiadol ac atebolrwydd y sefydliad**

O ganlyniad i ddatganoli pwerau yn Neddf Cymru 2017, mae'r Comisiwn Etholiadol wedi cysylltu â mi a Llywodraeth Cymru i gynnig y dylid deddfu i wneud y Comisiwn Etholiadol yn atebol i'r Cynulliad ac iddo gael ei ariannu gan Gomisiwn y Cynulliad, mewn perthynas ag etholiadau datganoledig yng Nghymru (h.y. etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau'r Cynulliad).

Yn y cyfarfod ar 5 Tachwedd, roedd Comisiynwyr yn cydnabod y gallai fod yn fuddiol pe bai'r Comisiwn Etholiadol yn atebol i'r Cynulliad am ei waith yng Nghymru ac yn nodi'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi cynnig y Comisiwn Etholiadol. Mae Gweithrediaeth yr Alban wrthi'n ystyried cynigion tebyg.

Cytunodd y Comisiynwyr i ofyn am sylwadau eu grwpiau ar yr egwyddor y byddai'r Comisiwn Etholiadol yn atebol i'r Cynulliad ac yn cael ei ariannu gan y Cynulliad. Bydd y mater yn cael ei drafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Comisiwn, gan ystyried sut y gellid defnyddio Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) fel ffordd o gyflwyno'r cynigion hyn.

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403
**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

**Newidiadau i enw'r Cynulliad a'r ffordd y disgrifir Aelodau**

Trafododd y Comisiynwyr yr adborth a ddarparwyd gan Aelodau a grwpiau gwleidyddol mewn ymateb i'm llythyr dyddiedig 16 Hydref ynghylch y teitlau neu'r disgrifiadau a ddefnyddir ar gyfer yr Aelodau ac enw'r sefydliad yn y dyfodol.

Trafododd y Comisiynwyr yr opsiynau a chytunwyd y byddwn i'n dewis yr enw a'r disgrifiadau i'w cynnwys yn y Bil a gaiff ei gyflwyno, gan mai fi yw'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil.

Fel y gwyddoch, bydd angen cefnogaeth o leiaf 40 o Aelodau er mwyn pasio'r Bil.  Fy mwriad felly, wrth gyflwyno'r Bil, yw cynnwys yr enw ar gyfer y sefydliad a'r disgrifiadau ar gyfer yr Aelodau sy'n adlewyrchu barn y rhan fwyaf o'r grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad ar hyn o bryd.

Rwyf wedi penderfynu mai'r enw newydd a gyflwynir yn y Bil fydd yr enw uniaith, "Senedd" ac mai'r enw ar gyfer Aelodau fydd "Aelodau'r Senedd / Members of the Senedd".

Enw byr y Bil a gaiff ei gyflwyno bydd Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru).

Bydd y Bil yn destun prosesau craffu deddfwriaethol arferol y Cynulliad.  Bydd y Comisiwn yn ystyried yn ofalus unrhyw argymhellion a wneir gan bwyllgorau'r Cynulliad yng Nghyfnod 1, ac unrhyw welliannau a gyflwynir a allai sicrhau'r consensws gwleidyddol sydd ei angen.

**Y camau nesaf**

Cyflwynir Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) yn gynnar yn y flwyddyn newydd.  Yn y cyfamser, mae fy swyddogion yn trefnu sesiynau galw heibio ar gyfer Aelodau'r Cynulliad neu aelodau o staff cymorth a hoffai drafod y Bil neu unrhyw agwedd arall ar waith y Comisiwn o ran diwygio'r Cynulliad.  Cynhelir y sesiynau yn y Cwrt yn ystod y Cyfarfod Llawn.  Caiff Aelodau wybod y dyddiadau a'r amseroedd cyn bo hir.

Yn gywir

Elin Jones

Elin Jones AC
Llywydd